INSC025

Cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer goruchwylwyr ym maes glanhau. Mae'n ymwneud â chefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y gweithle. Er y cydnabyddir nad ydych bob amser yn gallu newid strwythurau'n uniongyrchol na dylanwadu arnynt, disgwylir i chi ymddwyn yn rhagweithiol yn erbyn unrhyw wahaniaethu ac anghydraddoldeb. Mae'r safon yn cynnwys cefnogi hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr, annog cydraddoldeb a chydnabod amrywiaeth cwsmeriaid, cydweithwyr neu'r cyhoedd y byddwch chi neu'ch gweithwyr yn dod i gysylltiad â nhw.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. sicrhau bod eich gweithredoedd mewn cysylltiad â hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr yn cyd-fynd â fframweithiau deddfwriaethol presennol a pholisi eich sefydliad
2. cydnabod hawl gweithwyr i wneud eu penderfyniadau eu hunain a chydnabod eu cyfrifoldebau
3. rhoi cymorth i weithwyr nad ydynt yn gallu arfer eu hawliau
4. cydnabod y tensiynau rhwng hawliau a chyfrifoldebau a rhoi cymorth priodol er mwyn ceisio eu datrys
5. sicrhau bod y cofnodion angenrheidiol sy'n ymwneud â hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn gyflawn
6. rhoi'r wybodaeth ofynnol i weithwyr sydd am wneud cwyn ynglŷn â thorri eu hawliau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y mathau posibl o wahaniaethu, yr ymddygiad a allai fynegi'r rhain a sut y gallant amrywio rhwng gwahanol grwpiau ac mewn amgylcheddau gwaith gwahanol
2. y ddeddfwriaeth bresennol mewn cysylltiad â hawliau a chyfrifoldebau gan gynnwys cydnabod credoau personol
3. polisïau cyflogaeth eich sefydliad mewn cysylltiad â hawliau a chyfrifoldebau
4. y gweithdrefnau cwyno perthnasol a sut i fynd ati i'w defnyddio
5. eich rôl yn eich sefydliad a chwmpas eich cyfrifoldebau mewn cysylltiad â gweithwyr
6. sut y gall credoau a dewisiadau personol (gan gynnwys eich rhai chi) effeithio ar sut mae gweithwyr yn rhyngweithio â'i gilydd, cwsmeriaid a'r cyhoedd
7. y profiadau a'r safbwyntiau amrywiol y mae gweithwyr yn eu mynegi wrth ryngweithio, a manteision amrywiaeth mewn cymdeithas amlddiwylliannol
8. effeithiau posibl stereoteipio, rhagfarn a labelu unigolion
9. y ffyrdd y gallwch gefnogi hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr
10. sut y gallwch ymdrin â'r tensiynau a allai fod rhwng eu gwerthoedd a'u credoau
11. sut i gydnabod pan nad yw gweithwyr yn gallu arfer eu hawliau
12. sut i gymryd camau pan fydd dewisiadau neu weithredoedd gweithwyr yn torri hawliau eu cydweithwyr neu'r cyhoedd

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC303
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	Cydraddoldeb,amrywiaeth, hawliau, gweithle, cyfrifoldebau, ymddwyn, gwahaniaethu, pobl, gweithwyr, credoau